Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

(91)

Dydd Mawrth, 12 Hydref 2004

**AGENDA**

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1 - TYNNWYD YN ÔL**
**Cynnig i ethol aelodau'r awdurdodau lleol i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**

*NDM2116 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraffau 1(1) a 3 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r aelodau canlynol o awdurdodau lleol i Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol Cymru.

**Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol (10 cynrychiolydd)**

Y Cyngh. A. Aldridge
Y Cyngh. J. Hopkins
Y Cyngh. M. Gravell
Y Cyngh. M. Jones
Y Cyngh. R. Berman
Y Cyngh. R. Bright
Y Cyngh. B. Wellington
Y Cyngh. D. Lloyd Evans
Y Cyngh. J. James
Y Cyngh. D. Bowen

**Y Cynghorau Cymuned (2 gynrychiolydd)**

Y Cyngh. M. Stephens
Y Cyngh. T. Thomas

**Yr Awdurdodau Tân (1 cynrychiolydd)**

Y Cyngh. D. Rees

**Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (1 cynrychiolydd)**
Y Cyngh. S. Watkins

**Awdurdodau'r Heddlu (1 cynrychiolydd)**
Mr J. Antoniazzi

Eitem 2
Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad Busnes**
Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 4**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio – ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ynghylch Tai ar gyfer Pobl Hyn**

**Eitem 5**

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**
**Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004**
*NDM2117 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 5 Hydref 2004, mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2004
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2004.

Cliciwch yma i weld Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**Eitem 6**

**Dadl a enwebwyd gan y Ceidwadwyr**
*NDM2118 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)*
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio polisi Llywodraeth Lafur y Cynulliad ar ariannu Awdurdodau Lleol am ei fod wedi arwain at godiadau eithafol yn y Dreth Gyngor.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*
*(1)+(3)*
*(2)*

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu popeth ar ôl 'Cymru' ac yn ei le rhoi:
O'r farn bod y Dreth Gyngor yn dreth annheg ac atchweliadol, sy'n effeithio waethaf ar y rheini nad ydynt yn y sefyllfa orau i allu talu'r dreth, ac mae o'r farn y dylid cyflwyno Treth Incwm Leol yn ei lle.

Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)
Dileu popeth ar ôl 'Awdurdodau Lleol' a rhoi yn ei le 'ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i fynnu bod Llywodraeth San Steffan yn cyflwyno treth incwm leol yn lle'r dreth gyngor, a hynny'n rhan o system decach o drethu graddol, wedi'i seilio ar yr egwyddor bod y sawl sy'n ennill mwy yn talu mwy.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn croesawu'r ffaith fod y blaid Geidwadol yn cydnabod bod y Dreth Gyngor yn annheg.

**Eitem 7**
**Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 a gyflwynwyd gan David Melding AC**

*NDM2083 David Melding (Canol De Cymru)*
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2:
Yn penderfynu cyfarwyddo'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ddrafft a wnaed o dan adrannau 28R, 28S, 28V, 28W a 126(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, ac adran 4(5) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, i ddiwygio rheoliad 2 (Dehongli) ac Atodlen 2 (Gwasanaethau Ychwanegol) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 er mwyn cynnwys adolygiad iechyd blynyddol i bobl ag anableddau dysgu yn y gwasanaethau ychwanegol y gellir eu darparu o dan Gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.

Bydd y ddeddfwriaeth hon yn galluogi pobl sydd ag anabledd dysgu i gael adolygiad iechyd blynyddol.

*DS Cyflwynwyd 'Cost Benefit Analysis' ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon ar 5 Hydref 2004 ac mae ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd*

Cliciwch yma am Cost Benefit Analysis - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

Gellir dod o hyd i'r ddeddfwriaeth uchod drwy glicio ar y cysylltiadau canlynol - Ni fydd y ddogfenau ar gael ar We'r Siambr:

Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 http://www.legislation.hmso.gov.uk/si/si2002/20022759.htm

*Mewnosodwyd yr adrannau yn Neddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (c.49) y cyfeirir atynt yn y Cynnig (adrannau 28R, 28S, 28V a 28W) gan adran 175 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (c.43): http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2003/20030043.htm*

*Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990*
*http://www.hmso.gov.uk/acts/acts1990/Ukpga_19900019_en_1.htm*

*Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004*
*http://www.legislation.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20040478e.htm*

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 13 Hydref 2004**

E P Silk

Clerc y Cynulliad